



Telerau ac Amodau Aelodaeth QAA (Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon)

Mae'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA) - y corff annibynnol yr ymddiriedwyd ynddo i fonitro a chynghori ar safonau ac ansawdd mewn addysg uwch yn y DU - yn gwmni cyfyngedig drwy warant, corfforedig yng Nghymru a Lloegr gyda'r rhif cwmni 03344784. Mae QAA wedi'i gofrestru fel elusen yng Nghymru a Lloegr o dan y rhif elusen 1062746 ac yn yr Alban o dan y rhif elusen SC037786, gyda'i swyddfa gofrestredig yn Southgate House, Southgate Street, Caerloyw, GL1 1UB ('QAA').

Mae'r canlynol yn delerau ac amodau (y 'Telerau') rhwng QAA a'r Aelod (y 'Partïon') y mae QAA wedi cytuno i ddarparu'r Aelodaeth iddynt. Mae'r Telerau hyn, y Cytundeb Aelodaeth a'r Telerau Defnyddio gyda'i gilydd yn sail i'r berthynas ar gyfer Aelodaeth. Mae'r termau diffiniedig a ddefnyddir yn y Telerau hyn yn cael eu hesbonio yma: www.qaa.ac.uk/docs/qaa/about-us/qaa-membership-definitions.pdf

1 Cyffredinol

- 1.1 Mae'r cynghorion a'r canllawiau a gyhoeddir gan QAA fel rhan o'r Gwasanaethau yn rhai generig a chânt eu darparu er gwybodaeth yn unig. Gellir prynu gwasanaethau ymgynghori ar wahân trwy adran Gwasanaethau Proffesiynol QAA.
- 1.2 Mae Nodau Masnach QAA yn eiddo i QAA ac mae eu defnydd, gan gynnwys eu hatgynhyrchu, yn amodol ar ganiatâd ysgrifenedig gan QAA, ac ni chaniateir hyn o dan y cytundeb hwn.
- 1.3 Bydd yr Aelod yn cymryd cyfrifoldeb am ddefnydd unrhyw Ddefnyddiwr o'r Gwasanaethau nad yw'n unol â'r Telerau Defnyddio neu'r Telerau hyn.

2 Rhwymedigaethau QAA

- 2.1 Mae QAA yn gwarantu bod ganddynt, ac y byddant yn cynnal, pob trwydded, cydsyniad a chaniatâd angenrheidiol ar gyfer cyflawni eu rhwymedigaethau mewn perthynas â'r Gwasanaethau.
- 2.2 Bydd QAA yn darparu'r Gwasanaethau gan ddefnyddio medrau a gofal rhesymol i safon y gellir ei disgwyl yn rhesymol gan gorff sy'n meddu ar arbenigedd a gwybodaeth QAA.
- 2.3 Bydd QAA yn gwneud pob ymdrech resymol i sicrhau bod y Gwasanaethau yn hygyrch i'r Aelod a'i Ddefnyddwyr trwy gydol Cyfnod yr Aelodaeth, ond nid yw'n cynnig unrhyw sicrwydd o ran hygyrchedd y Gwasanaethau.
- 2.4 Mae QAA yn cadw'r hawl i ddiwygio'r Gwasanaethau ar unrhyw adeg heb rybudd i'r Aelod, cyn belled nad yw diwygiadau o'r fath yn newid natur y Gwasanaethau yn sylweddol.

3 Adnoddau'r Aelodaeth

3.1 Gall defnyddwyr gyrchu, defnyddio, argraffu a lawrlwytho Adnoddau'r Aelodaeth yn unol â'r Telerau Defnyddio. Mae rhai o Adnoddau'r Aelodaeth wedi'u bwriadu ar gyfer Aelodau yn unig ac maent wedi'u dynodi felly.

3.2 Pan fyddwch yn cofrestru fel defnyddiwr gwasanaethau Aelodaeth QAA, byddwn yn cysylltu â chi drwy e-bost i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am newyddion QAA a diweddariadau ar gyfer yr aelodaeth am ddigwyddiadau a gweithgareddau. Mae hyn oherwydd mai ein sail gyfreithiol ar gyfer prosesu yw perfformiad cytundebol, fel yr amlinellir yn [Hysbysiad Preifatrwydd](#) QAA. Os nad ydych am dderbyn y cyfathrebiadau hyn, gallwch hysbysu ein hadran aelodaeth: engage@qaa.ac.uk.

4 Ffioedd Aelodaeth

4.1 Bydd y Ffi Aelodaeth sy'n berthnasol ar gyfer y Cyfnod Aelodaeth cyntaf ac unrhyw gyfnod dilynol yn cael ei chadarnhau'n flynyddol mewn anfoneb, a fydd yn gyfystyr â chynnig gan QAA i gyflenwi'r Gwasanaethau yn unol â'r Telerau hyn.

4.2 Bydd yr Aelod yn talu'r anfoneb o fewn 30 diwrnod i'w chyhoeddi. Bydd talu'r anfoneb yn gyfystyr â derbyn y cynnig y cyfeirir ato yng nghymal 4.1.

4.3 Rhoddir caniatad i Ddefnyddwyr yr Aelod gael mynediad i Adnoddau'r Aelodaeth gynted y bydd y cynnig wedi'i dderbyn. Bydd mynediad yn cael ei derfynu i bob Defnyddiwr os na chaiff yr anfoneb y cyfeirir ati yng nghymal 4.2 ei thalu erbyn y dyddiad y mae'n ddyledus.

4.4 Bydd Cyfnodau Aelodaeth Dilynol yn dechrau heb fod yn gynharach na 1^{af} Awst ('Dyddiad Dechrau'r Aelodaeth') ni waeth pryd y bydd QAA yn derbyn taliad am y Cyfnod Aelodaeth, a bydd yn dod i ben ar 31^{ain} Gorffennaf bob blwyddyn.

4.5 Cyfrifir yr holl Ffioedd Aelodaeth heb Dreth Ar Werth y DU ('TAW') ar y sail bod y Gwasanaethau y tu allan i gwmpas TAW. Mae QAA yn cadw'r hawl i godi TAW os bernir ei bod yn berthnasol.

4.6 Ni fydd gan yr Aelod hawl i unrhyw ad-daliad o'r Ffi Aelodaeth os yw'r Aelod yn penderfynu tynnu ei Aelodaeth yn ôl cyn diwedd Cyfnod yr Aelodaeth.

5 Digwyddiadau ar gyfer Aelodau

5.1 Bydd QAA yn gwneud pob ymdrech resymol i sicrhau bod Digwyddiadau ar gyfer Aelodau'n cael eu cynnal fel y'u hysbyseb, ond maent yn cadw'r hawl yn ôl eu disgrisiwn llwyr i addasu neu ganslo dyddiad, amseriad, rhaglen neu unrhyw agwedd arall ar ddigwyddiad a hysbyseb ar unrhyw adeg.

5.2 Bydd archebu, a mynychu, Digwyddiadau ar gyfer Aelodau'n amodol ar delerau ac amodau digwyddiadau QAA, fel y'u cyhoeddir o bryd i'w gilydd.

6 Cyfrinachedd

6.1 Bydd pob Parti'n cadw'n gyfrinachol (a bydd yn sicrhau bod eu gweithwyr, eu hasiantau a'u Defnyddwyr, fel y bo'n berthnasol, yn cadw'n gyfrinachol) unrhyw Wybodaeth Gyfrinachol y gallant ei chyrru yn ystod Cyfnod yr Aelodaeth, ac eithrio gwybodaeth y gallent fod â hawl neu gyfrifoldeb i'w datgelu, dan orfodaeth y gyfraith neu lle bo'n ofynnol gan asiantaethau rheoleiddio neu i'w hymgyngorwyr proffesiynol lle bo hynny'n rhesymol angenrheidiol ar gyfer perfformiad y Gwasanaethau.

6.2 Bydd rhwymedigaethau pob un o'r Partïon sydd wedi'u cynnwys yn is-gymal 6.1 yn parhau heb gyfyngiad o ran amser, ond yn peidio â bod yn berthnasol i unrhyw wybodaeth sy'n dod i'r parth cyhoeddus mewn unrhyw fordd ac eithrio yn sgil unrhyw Barti'n gweithredu'n groes i'w rhwymedigaethau a gynhwysir yn y Telerau hyn.

7 Hawliau Eiddo Deallusol

7.1 Bydd yr holl Hawliau Eiddo Deallusol sy'n deillio o'r Gwasanaethau neu sy'n gysylltiedig â'r Gwasanaethau, gan gynnwys holl Adnoddau'r Aelodaeth, yn eiddo i QAA, a fydd yn cadw Eiddo Deallusol o'r fath er budd ac ar ran Aelodau ar y cyd.

7.2 Mae QAA yn rhoi trwydded fyd-eang, anghyfyngedig, ddirymadwy, anhrosglwyddadwy, na ellir ei haseinio, heb freindal i'r Aelod ddefnyddio Hawliau Eiddo Deallusol QAA at ddiben derbyn a defnyddio'r Gwasanaethau'n unig, ac yn amodol ar y telerau a nodir isod, ac nid at unrhyw ddiben arall o gwbl (y 'Drwydded'):

7.2.1 caiff yr Aelod ddefnyddio Adnoddau'r Aelodaeth at ei ddibenion addysgol, ymchwil a busnes mewnol ei hun, a dibenion ei Ddefnyddwyr yn unig; ac

7.2.2 o dan delerau'r Drwydded, ni chaiff yr Aelod wneud addasiadau i Adnoddau'r Aelodaeth (gan gynnwys cyfieithu, addasu, gwaith deilliadol neu newid arall sy'n deillio o'r Adnoddau Aelodaeth gwreiddiol) heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan QAA, oni bai bod yr Adnodd Aelodaeth dan sylw yn nodi fel arall (hynny yw, y rhai sy'n destun trwyddedau *Creative Commons* neu sydd wedi'u cynllunio'n benodol i'w haddasu at ddefnydd lleol gan Aelodau).

7.3 Lle bo'n berthnasol, rhaid i'r Aelod gadw'r holl hysbysiadau hawlfraint ar gyfer Adnoddau'r Aelodaeth yn gyfan, ynghyd ag unrhyw hysbysiadau priodoli yn ôl cyfarwyddyd QAA o bryd i'w gilydd.

7.4 Bydd darpariaethau'r cymal hwn yn parhau pan ddaw'r Contract i ben neu os caiff ei derfynu, sut bynnag y digwydd hynny.

8 Diogelu data

8.1 Bydd pob Parti'n cydymffurfio â'r holl rhwymedigaethau a osodir ar reoleiddiwr o dan Ddeddfwriaeth Diogelu Data'r DU (unrhyw ddeddfwriaeth diogelu data sydd mewn grym o bryd i'w gilydd yn y DU, gan gynnwys Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol EU2016/679). Os bydd unrhyw Barti'n gweithredu'n groes i Ddeddfwriaeth Diogelu Data'r DU, ac os na chaiff ei unioni o fewn 30 diwrnod i hysbysiad ysgrifenedig gan y Parti arall, gall roi sail i'r Parti arall derfynu'r cytundeb hwn ar unwaith.

8.2 Bydd unrhyw wybodaeth bersonol (fel y'i diffinnir gan Ddeddfwriaeth Diogelu Data'r DU) a rennir rhwng y Partïon mewn perthynas â'r Contract yn cael ei phrosesu'n unol â thelerau hysbysiad preifatrwydd QAA, fel y caiff ei ddiweddarau o bryd i'w gilydd: [Preifatrwydd a chwcis \(qaa.ac.uk\)](http://qaa.ac.uk)

9 Cyfyngu ar atebolrwydd

9.1 Ni fydd QAA yn atebol am:

- a. unrhyw golled, anaf, hawliad, cyfrifoldeb, neu ddifrod o unrhyw fath sy'n deillio o, neu sydd mewn unrhyw ffordd yn gysylltiedig â'r canlynol: (i) unrhyw wallau neu hepgoriadau yn y Gwasanaethau; (ii) unrhyw gynnwys gan drydydd parti; (iii) nad yw'r Gwasanaethau neu unrhyw ran ohonynt ar gael; (iv) defnydd yr Aelod o'r Gwasanaethau; neu (v) defnydd yr Aelod o

- unrhyw gyfarpar neu feddalwedd mewn cysylltiad â'r Gwasanaethau; neu
- b. unrhyw iawndal arbennig, uniongyrchol, anuniongyrchol, achlysurol, cosbol neu ganlyniadol o unrhyw fath o gwbl (gan gynnwys, heb gyfyngiad, ffioedd cyfreithwyr) sydd mewn unrhyw ffordd yn deillio o, mewn cysylltiad â, neu o ganlyniad i ddefnyddio neu fethu â defnyddio'r Gwasanaethau.

9.2 Yn amodol ar yr eithriadau angenrheidiol sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith, bydd cyfanswm atebolrwydd QAA - boed trwy gontract, camwedd, esgeulustod, tor-dyletswydd statudol neu fel arall o dan y gyfraith - mewn perthynas ag unrhyw hawliad unigol neu gyfres o hawliadau cysylltiedig o dan y Contract neu mewn cysylltiad â'r Contract, yn gyfyngedig i'r swm sy'n hafal i'r Ffi Aelodaeth a dalwyd yn briodol ac oedd yn daladwy yn y flwyddyn cyn i'r hawliad neu'r gyfres o hawliadau godi.

10 Amrywiad

10.1 Gall QAA amrywio'r Telerau hyn ar unrhyw adeg cyn belled â bod yr Aelodau'n cael eu hysbysu mewn ysgrifen fis ymlaen llaw ynghylch amrywiad o'r fath. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, bydd hysbysiad o'r fath yn effeithiol os caiff ei anfon drwy e-bost.

11 Terfynu ac Atal

11.1 Gall QAA derfynu neu atal aelodaeth dros-dro dan yr amgylchiadau canlynol:

- a. Mae'r Aelod yn gweithredu'n groes i Egwyddorion Aelodaeth QAA;
- b. Ni all yr Aelod ddangos ei fod yn gymwys ar gyfer Aelodaeth mwyach;
- c. Mae'r Aelod yn cymryd unrhyw gam neu weithred mewn cysylltiad â galw gweinyddwyr i mewn, diddymiad amodol neu unrhyw gyfansoddiad neu drefniant â'i gredydwyr (ac eithrio mewn cysylltiad ag ailstrwythuro ariannol), cael ei ddirwyn i ben (boed yn wirfoddol neu trwy orchymyn y llys, oni bai at ddiben ailstrwythuro ariannol), cael derbynnydd wedi'i benodi i unrhyw un o'i asedau neu roi'r gorau i gynnal busnes neu, os cymerir y cam neu'r weithred mewn awdurdodaeth arall, mewn cysylltiad ag unrhyw weithdrefn gyffelyb yn yr awdurdodaeth berthnasol;
- d. Mae'r Aelod yn atal neu'n bygwth atal, neu'n rhoi'r gorau i neu'n bygwth rhoi'r gorau i gynnal ei holl fusnes neu ran sylweddol ohono;
- e. Os bydd newid mewn perchnogaeth neu os bydd yr endid cyfreithiol yn newid. Dylai'r Aelod hysbysu QAA yn y lle cyntaf.

12 Y gyfraith berthnasol

12.1 Bydd y berthynas Aelodaeth ac unrhyw anghydfod neu hawliad (gan gynnwys unrhyw anghydfod neu hawliad nad yw'n gytundebol) sy'n deillio ohoni, neu mewn cysylltiad â'r berthynas honno, ei thestun neu ei ffurfiant, yn cael ei llywodraethu a'i dehongli yn unol â chyfreithiau Cymru a Lloegr.

Cyhoeddwyd – 8 Mai 2025

© Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch 2025
Rhifau elusen cofrestredig 1062746 a SC037786
www.qaa.ac.uk